YMGYRCH TREFTADAETH CYMRU
OPERATION HERITAGE CYMRU

Cadw

# BI-ANNUAL NEWSLETTER

## 2026 | RHIFYN YR HAF



2877_01

CYFLWYNIAD ..................... 3

ACHOSION O DDWYN O SAFLEOEDD ARCHEOLEGOL YN Y NOS LEDLED CYMRU ..................... 4

SBOTOLAU AR DDIGWYDDIAD CYMUNEDOL ..................... 5

CERBYDAU ODDI AR Y FFORDD A'R AMGYLCHEDD HANESYDDOL ..................... 7

HEDDLU DYFED POWYS: DIOGELU MANNAU ADDOLI ..................... 9

CYNLLUN GWARCHOD TREFTADAETH - YMGYRCH ATAL TROSEDDU YN RHOI CYMORTH I EGLWYSI GWLEDIG ..................... 10

CYMUNEDAU LLEOL YN CHWARAE RHAN RHENG FLAEN BWYSIG YN RIPORTIO TROSEDDAU TREFTADAETH ..................... 11

PRIF SWYDDOGAETHAU CYMUNEDAU LLEOL ..................... 11

BUDDSODDIAD MEWN TECHNOLEG NEWYDD YN HELPU I YMDRIN Â THROSEDDAU TREFTADAETH ..................... 14

CADW YN BUDDSODDI MEWN TECHNOLEG DRÔN I AMDDIFFYN AMGYLCHEDD HANESYDDOL CYMRU ..................... 15

OFFER MODERN AR GYFER TIRWEDD HANESYDDOL ..................... 15

CRYFHAU'R YMATEB I DROSEDDAU TREFTADAETH ..................... 16

GWELLA EFFEITHLONRWYDD A LLEIHAU RISG ..................... 16

CAMAU GWEITHREDU YN ERBYN CHWILOTWR DIGYWILYDD ..................... 17

TIRWEDD LLECHI GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU ..................... 18

DIWRNOD CLIRIO PENTYRRAU CERRIG CERDDWYR - CARNEDD DAFYDD ..................... 20

MEDDYLIAU I GLOI ..................... 22

YMGYRCH TREFTADAETH CYMRU
OPERATION HERITAGE CYMRU
Cadw

# CYFLWYNIAD

**Croeso Cynnes i Drydydd Rhifyn Cylchlythyr Ymgyrch Treftadaeth Cymru**

Cafwyd mwy o gydweithio rhwng plismona ac asiantaethau partner ledled Cymru yn ystod hanner cyntaf 2026 i roi sylw i amryw o droseddau treftadaeth wrth iddynt ddod i'r amlwg. Mae'r dull cyson, ar y cyd hwn o weithio yn hollbwysig er mwyn lleihau cyfleoedd i bobl gyflawni troseddau treftadaeth a lleihau eu heffaith ar ein hamgylchedd hanesyddol pan fydd troseddau'n cael eu cyflawni.

**Ein Hamcanion Cyffredinol:**

- Datblygu a darparu rhaglen hyfforddiant i swyddogion heddlu a chadetiaid i wella'r gwaith o atal, adnabod, ac ymchwilio i droseddau treftadaeth
- Cryfhau partneriaethau a gwella cydgysylltu rhwng plismona, Cadw, a sefydliadau partner
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gadwraeth treftadaeth trwy ymgysylltu pwrpasol â'r gymuned ac ymgyrchoedd addysgol pwrpasol

Trwy gydweithio, gallwn ddiogelu treftadaeth gyfoethog ac amrywiol Cymru yn well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol



# ACHOSION O DDWYN O SAFLEOEDD ARCHEOLEGOL YN Y NOS LEDLED CYMRU

Dechreuodd y flwyddyn gydag adroddiadau parhaus am achosion o ddwyn o safleoedd archeolegol yn y nos ledled Cymru, gan gynnwys digwyddiadau a oedd yn effeithio ar nifer o safleoedd treftadaeth arwyddocaol.

Mae nifer o adroddiadau yn ymwneud â lleoliadau tirnodau hysbys. Yn un achos yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, canfuwyd 59 o dyllau yng Nghastell Aberystwyth, chwech ohonynt o fewn ardal yr heneb gofrestredig sy'n warchodedig gan y gyfraith.

Mae Heddlu Gwent wedi derbyn adroddiadau am achosion posibl o ddwyn o safleoedd archeolegol yn y nos yng Nghastell Caerffili hefyd. Ar sawl achlysur yn ystod y misoedd diwethaf, mae staff wedi canfod tyllau newydd ar dir y castell, y credir sydd o ganlyniad i bobl yn defnyddio synwyryddion metel anghyfreithlon.

Mae achosion o ddwyn o safleoedd archeolegol yn y nos yn parhau i beri bygythiad sylweddol i amgylchedd hanesyddol Cymru, ac yn achosi difrod diwrthdro i nodweddion archeolegol a cholled asedau treftadaeth pwysig.

O dan Adran 60 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, mae defnyddio synwyryddion metel heb ganiatâd ar heneb gofrestredig yn drosedd.




*Rhai o'r tyllau a ganfuwyd yng Nghastell Caerffili*

# SBOTOLAU AR DDIGWYDDIAD CYMUNEDOL

Ym mis Mai, cynhaliwyd digwyddiad ail-greu Llychlynnig llwyddiannus iawn mewn coetir bach yn ardal Tredegar.

Roedd y penwythnos yn cynnig profiad o ymgolli'n llwyr yn yr Oes Lychlynnig, gan gynnwys arddangosiadau ymladd a gwersyll go iawn wrth galon y digwyddiadau.

Cafodd ymwelwyr gyfle i ymchwilio i hanes byw, ymddiddan â’r ail-grëwyr a chael cipolwg ar fywyd yn ystod y cyfnod Llychlynnig.

O fasnachwyr a chrefftau i weithgareddau plant a cherddoriaeth draddodiadol, roedd digon i gadw ymwelwyr yn ddiddan.



*Ailgrëwyr yn arddangos sgiliau ymladd y cyfnod*

Gan fod *ymladd Llychlynnig o'r oesoedd canol cynnar ac ail greu hanes byw* yn gyfle mor dda i ymgysylltu â phobl, roedd rhaid i gynrychiolwyr Ymgyrch Treftadaeth Cymru fod yno!




*Swyddogion Heddlu Gwent a gwirfoddolwyr troseddau treftadaeth yn cynrychioli Ymgyrch Treftadaeth Cymru*

Mae ymgysylltu'n arbennig o effeithiol yn y math yma o ddigwyddiad, gan ei fod yn dod ag unigolion â diddordeb mawr yn yr amgylchedd hanesyddol at ei gilydd, gan gynnwys perchnogion tir, gwirfoddolwyr, a haneswyr lleol.

Mae hyn yn ategu gwaith i ddatblygu perthnasoedd o ymddiriedaeth ac yn annog rhannu gwybodaeth dan arweiniad y gymuned, sy'n hanfodol wrth adnabod ac atal troseddau yng nghefn gwlad ac mewn lleoliadau diarffordd.

# CERBYDAU ODDI AR Y FFORDD A'R AMGYLCHEDD HANESYDDOL

Mae effaith y defnydd o gerbydau oddi ar y ffordd anghyfreithlon, gan gynnwys cerbydau 4x4 a beiciau oddi ar y ffordd, ar yr amgylchedd hanesyddol wedi bod yn achos pryder sylweddol ers tro.

Mae gweithgarwch o'r fath yn gallu achosi difrod sylweddol a diwrthdro yn aml i safleoedd a thirweddau archeolegol sensitif. Mae'r effeithiau i'w gweld ar unwaith ac maent yn gallu diraddio'r cofnod hanesyddol yn barhaus drwy erydiad, aflonyddu ar y ddaear a dadleoliad deunyddiau archeolegol.



*Erydiad tir a achoswyd gan feiciau oddi ar y ffordd*

Mae gyrru cerbydau oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn gallu difrodi gwrthgloddiau hanesyddol trwy achosi rhychau dwfn ac erydu. Mewn rhai achosion, mae'n gallu treulio nodweddion archeolegol i'w craidd a newid y dirwedd yn barhaus.

Mae gwaith gorfodi mewn ucheldiroedd diarffordd ac agored yn arbennig o anodd, ac yn aml mae angen adnoddau arbenigol a dulliau cyd-gysylltiedig. Mewn ymateb, mae heddluoedd Cymru wedi defnyddio mwy o gefnogaeth o'r awyr, gan gynnwys hofrenyddion a dronau, sydd wedi profi i fod yn effeithiol yn aml yn canfod a tharfu ar y gweithgarwch anghyfreithlon yma.




*Swyddogion Troseddau Cefn Gwlad a hofrennydd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ar ymgyrch.*




*Defnyddio drôn*

# HEDDLU DYFED POWYS: DIOGELU MANNAU ADDOLI

Dywed Swyddog Troseddau Treftadaeth Heddlu Dyfed-Powys (HDP), Gary Gwilt, bod **pedair trosedd yn ymwneud ag eglwysi** wedi cael eu cofnodi hyd yn hyn eleni ar draws ardal yr heddlu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dau achos o ddwyn
- Dau achos o ddifrod troseddol

Mae digwyddiadau o'r natur yma'n cael eu monitro'n agos gan Dîm Troseddau Cefn Gwlad HDP, sy'n mynd ati i adnabod patrymau, cefnogi ymchwiliadau, a gweithio gyda phartneriaid i atal mwy o droseddau.

**Cyngor i Eglwysi a Grwpiau Cymunedol:**

- Sicrhewch fod cloeon, giatiau, a phwyntiau mynediad yn cael eu gwirio a'u cynnal yn rheolaidd
- Ystyriwch fesurau diogelwch sylfaenol fel goleuadau synhwyro symudiad, larymau neu gamera teledu cylch cyfyng ble y bo'n briodol
- Cadwch eitemau gwerthfawr neu hanesyddol yn ddiogel a chadwch gofnod neu ffotograffau ohonynt os yn bosibl
- Gofynnwch i gymunedau lleol fod yn wyliadwrus a riportio unrhyw weithgarwch amheus yn syth

Mae riportio'n gynnar ac ymwybyddiaeth gymunedol yn parhau i chwarae rhan allweddol yn diogelu'r safleoedd pwysig hyn.



# CYNLLUN GWARCHOD TREFTADAETH - YMGYRCH ATAL TROSEDDU YN RHOI CYMORTH I EGLWYSI GWLEDIG

Ym mis Ionawr, roedd Tîm Troseddau Cefn Gwlad Gwent yn falch i roi cymorth i fwy o eglwysi lleol trwy'r Cynllun Gwarchod Treftadaeth, gan ddarparu 20 o becynnau atal troseddu pwrpasol.

Darparwyd y pecynnau yn dilyn cais gan Yr Eglwys yng Nghymru, ac roeddent yn ddigon ar gyfer offeiriadaeth wledig gyfan.

Roedd pob pecyn wedi cael ei roi at ei gilydd yn ofalus i helpu i ddiogelu'r mannau cymunedol gwerthfawr hyn ac roeddent yn cynnwys cynhyrchion marcio fforensig Smart Water, sticeri ataliol gweladwy, arwyddion Cynllun Gwarchod Treftadaeth, ynghyd â chyngor cyffredinol ynghylch lleihau'r risg o droseddu.





## CYMUNEDAU LLEOL YN CHWARAE RHAN RHENG FLAEN BWYSIG YN RIPORTIO TROSEDDAU TREFTADAETH




Yng Nghymru mae llawer o safleoedd yn ddiarffordd ac yn anodd eu monitro.

## PRIF SWYDDOGAETHAU CYMUNEDAU LLEOL

### 1. Canfod a Riportio Cynnar

Yn aml, aelodau o'r gymuned leol fel ffermwyr, perchnogion tir, cerddwyr a gwirfoddolwyr yw'r cyntaf i sylw ar:

- Weithgarwch amheus (e.e. cerbydau ger safleoedd diarffordd yn y nos)
- Arwyddion defnyddio synwyryddion metel neu gloddio anghyfreithlon
- Difrod i henebion, eglwysi, neu adeiladau hanesyddol

Gan nad yw'r heddlu a chyrff treftadaeth yn gallu bod yn bresennol trwy'r amser, mae gwyliadwriaeth gymunedol yn gweithredu fel system rybuddio cynnar.

## 2. Rhannu gwybodaeth

Mae gwybodaeth leol yn amhrisiadwy. Mae cymunedau'n gallu darparu:

- Gwybodaeth am unigolion neu weithgarwch amheus
- Manylion am lwybrau mynediad, math o dir, a pha rannau o safle sy'n agored i niwed
- Cyd-destun ynghylch beth sy'n ymddygiad "normal" neu'n ymddygiad amheus

Mae hyn yn hybu plismona sy'n cael ei arwain gan wybodaeth ac yn helpu i adeiladu achosion tystiolaethol cryfach.

## 3. Cymryd rhan mewn Cynlluniau Gwarchod

Mae ymgyrchoedd fel y Cynllun Gwarchod Treftadaeth yn dibynnu ar gyfraniad y gymuned. Mae'r cynlluniau hyn yn:

- Annog riportio strwythuredig
- Hwyluso cyfathrebu rhwng preswylwyr a'r heddlu
- Rhannu rhybuddion a chyngor atal troseddau

Yng Nghymru, mae'r rhain yn aml yn cyfuno gydag ymgyrchoedd troseddau cefn gwlad ehangach, gan gryfhau'r cwmpas cyffredinol.

## 4. Cefnogi Gwaith Atal

Mae cymunedau'n cyfrannu at atal trwy:

- Gynyddu presenoldeb gweladwy ar safleoedd treftadaeth
- Hybu mynediad cyfrifol ac ymwybyddiaeth
- Gweithio gyda Cadw ac awdurdodau lleol ar stiwardiaeth safleoedd.

Mae hyn yn lleihau cyfleoedd i droseddwyr ac yn pwysleisio perchnogaeth y gymuned.




*Gwaith Haearn Hanesyddol Blaenafon*

## BUDDSODDIAD MEWN TECHNOLEG NEWYDD YN HELPU I YMDRIN Â THROSEDDAU TREFTADAETH

Ym mis Mawrth, cafodd swyddogion o Dîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gwent dechnoleg gweld yn y nos i'w gwisgo ar y pen, gan roi hwb sylweddol i'w gallu gweithredol.

Mae'r buddsoddiad diweddaraf hwn yn ychwanegu at yr offer blaengar sydd gan y tîm eisoes, a bydd yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag offer delweddu thermal ac offer arbenigol arall i ymdrin â throseddau heriol fel dwyn o safleoedd archeolegol yn y nos.

Mae'r offer newydd yn rhoi mantais dactegol i swyddogion, gan eu galluogi nhw i symud ar draws tir cymhleth mewn tywyllwch dudew heb yr angen am olau gweladwy. Byddant yn gwbl ymwybodol o'u lleoliad ond yn anweledig. Yn hollbwysig, mae hefyd yn bosibl cofnodi tystiolaeth arno mewn amgylchiadau gyda'r lleiaf o olau, gan wella gallu'r tîm i ganfod a tharfu ar droseddwyr, a'u herlyn nhw.




*Offer gweld yn y nos newydd yn cael ei ddefnyddio.*

Meddai llefarydd ar ran y Tîm Troseddau Cefn Gwlad:

***"Mae'r dechnoleg hon yn ddatblygiad newydd i ni. Mae gallu gweithredu'n effeithiol mewn tywyllwch dudew yn rhoi mantais glir i ni, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig diarffordd. Yn ogystal â gwella ein diogelwch, mae hefyd yn gwella ein gallu i gasglu tystiolaeth a dwyn troseddwyr gerbron y llysoedd yn sylweddol."***

# CADW YN BUDDSODDI MEWN TECHNOLEG DRÔN I AMDDIFFYN AMGYLCHEDD HANESYDDOL CYMRU

Mae Cadw yn buddsoddi mewn technoleg drôn, sy'n gam sylweddol ymlaen yn y ffordd mae Cymru'n amddiffyn, monitro, a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Wrth i asedau treftadaeth wynebu pwysau cynyddol, o erydiad naturiol i weithgarwch troseddol, mae'r buddsoddiad hwn yn gam tuag at ddulliau mwy clyfar ac effeithlon o ddiogelu safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol.



## OFFER MODERN AR GYFER TIRWEDD HANESYDDOL

Mae Cymru'n gartref i amgylchedd hanesyddol eang ac amrywiol, gan gynnwys henebion cofrestredig, cestyll, tirweddau hynafol a safleoedd archeolegol. Mae llawer o'r asedau hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd diarffordd neu anodd eu cyrraedd, sy'n golygu bod dulliau archwilio traddodiadol yn mynd ag amser ac, weithiau, yn anymarferol.

Mae technoleg drôn yn galluogi Cadw i oresgyn yr heriau hyn. Diolch i gamerâu eglur iawn a galluoedd mapio, mae dronau'n gallu cymryd delweddau manwl o safleoedd o wahanol onglau, dros ardal y byddai'n cymryd amser sylweddol neu gostau ychwanegol i'w chwmpasu fel arall.

Mae'r dull gweithio yma'n cefnogi cyfrifoldebau craidd Cadw, sef:

- Monitro cyflwr asedau treftadaeth
- Adnabod risgiau a dirywiad
- Cefnogi cynllunio cadwraeth

- Gwella stiwardiaeth gyhoeddus o safleoedd hanesyddol.

## CRYFHAU'R YMATEB I DROSEDDAU TREFTADAETH

Mae dronau’n cynnig manteision clir o ran atal troseddu a gorfodaeth hefyd. Mae troseddau treftadaeth fel defnyddio synwyryddion metel yn anghyfreithlon, cloddio heb ganiatâd, a difrod troseddol yn digwydd yn aml mewn ardaloedd ynysig lle mae'n anodd eu canfod.

Mae defnyddio dronau yn galluogi'r canlynol:

- Asesiad cyflym o ddigwyddiadau sy'n cael eu riportio
- Cofnod o ddifrod at ddibenion tystiolaethol
- Monitro safleoedd agored i niwed neu sy'n cael eu targedu
- Cymorth i bartneriaid plismona yn ystod ymchwiliadau

Trwy gipio data gweledol cywir, sy'n dangos yr amser, mae dronau'n helpu i sicrhau tystiolaeth ar gyfer achosion a gwella'r ymateb cyffredinol i droseddau sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

## GWELLA EFFEITHLONRWYDD A LLEIHAU RISG

Mae dulliau arolygu traddodiadol yn aml yn golygu archwiliadau yn y cnawd, sydd weithiau'n golygu bod rhaid i bersonél fynd i dir serth, ansefydlog neu beryglus. Mae dronau'n lleihau'r risgiau hyn yn sylweddol trwy alluogi asesiadau o bell heb beryglu diogelwch.

Yn ogystal, maen nhw'n fwy effeithlon o ran:

- Arolygon cyflymach ar draws ardaloedd helaeth
- Llai o angen i ymweld â safleoedd
- Costau gweithredol is dros amser
- Y gallu i olrhain newidiadau yn hydredol yn well

Mae hyn yn galluogi Cadw i ddyrannu adnoddau yn fwy strategol, gan ganolbwyntio ar y safleoedd yn y perygl mwyaf gan oruchwylio'r amgylchedd hanesyddol ehangach ar yr un pryd.

Mae’r buddsoddiad hwn yn gwella ein gallu i amddiffyn safleoedd treftadaeth ac yn cadarnhau rôl Cymru fel arweinydd cenedlaethol mewn gwaith partner arloesol.

# CAMAU GWEITHREDU YN ERBYN CHWILOTWR DIGYWILYDD

Dros y misoedd diwethaf, codwyd pryderon yn dilyn nifer o ddigwyddiadau yn ymwneud â mynediad diawdurdod i rwydweithiau twneli cloddio yn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.

Ar rai achlysuron, roedd rhywun yn mynd i mewn trwy dynnu cloeon clap swyddogol y pwll, ac yna'n eu hamnewid gyda'i gloeon ei hun er mwyn gallu cael mynediad cyson.

Roedd rhai o'r pwyntiau mynediad yr effeithiwyd arnynt yn rhan o henebion cofrestredig gwarchodedig, a arweiniodd at bryderon ynglŷn â throseddau treftadaeth posibl a'r perygl o niwed i safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol.

Diolch i wyliadwriaeth a gwaith rhagweithiol sefydliadau sy'n gyfrifol am reoli'r lleoliadau hyn, daethpwyd o hyd i dystiolaeth a oedd yn dangos drwgweithredwr posibl ar y cyfryngau cymdeithasol, a gafodd ei rhannu gyda'r heddlu.

Llwyddodd swyddogion i adnabod a dal yr unigolyn. Cyflwynwyd Datrysiad Cymunedol a oedd yn mynnu bod yr unigolyn yn dysgu am oblygiadau cyfreithiol ei weithredoedd ac yn rhoi arteffact cloddio yr oedd wedi ei ddarganfod i amgueddfa leol fel ffordd o wneud iawn am yr hyn roedd wedi ei wneud.



# TIRWEDD LLECHI GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU

Mae'n rhaid i ni dynnu sylw at y gwaith rhagorol sy'n digwydd yng Ngogledd Cymru!

Mae Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi cynhyrchu nifer o adnoddau addysgol sy'n ymwneud â throseddau treftadaeth ac mae wedi bod yn gweithio gydag ysgolion lleol.

[Cliciwch yma i weld yr adnoddau]








*Yr adnoddau newydd yn cael eu defnyddio gan grŵp ysgol lleol.*

Yn ogystal â'r gwaith maes gwych sy'n digwydd ar draws ysgolion a chymunedau, mae gweithgor newydd wedi cael ei ffurfio gyda'r nod o roi sylw i achosion cynyddol o droseddau treftadaeth yn yr ardal. Mae cynrychiolwyr yn cynnwys swyddogion awdurdod lleol (Cyngor Gwynedd), Cadw, perchnogion tir a Heddlu Gogledd Cymru.

[Cliciwch yma i weld tudalen trosedd treftadaeth Safle Treftadaeth y Byd]

# DIWRNOD CLIRIO PENTYRRAU CERRIG CERDDWYR - CARNEDD DAFYDD

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn ar gopa Carnedd Dafydd yn ddiweddar pan ddaeth gwirfoddolwyr a phartneriaid o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw,  Cymdeithas Eryri ac Anelu'n Uchel at ei gilydd i gael gwared ar bentyrrau cerrig diangen.

Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar ddymchwel pentyrrau cerrig a adeiladwyd yn ddiweddar, sy'n gallu cael effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol a diogelwch cerddwyr. Mae rhai o'r pentyrrau hyn wedi cael eu hadeiladu yn uniongyrchol ar lwybrau sefydledig, gyda'r posibilrwydd o gamarwain cerddwyr, yn arbennig pan mae'n anodd gweld neu mewn niwl.

Yn ogystal â pheri pryder am ddiogelwch cerddwyr, mae ailddosbarthu cerrig yn cyfrannu at fwy o erydiad pridd a gall ddargyfeirio ymwelwyr ar draws ardaloedd copaon sensitif. Mae adeiladu pentyrrau cerrig yn gallu difrodi cynefinoedd brÿoffyt (mwsogl a llysiau'r afu) hefyd, sy’n fregus ac yn araf yn adfer. Gall amharu ar yr amgylchoedd hyn gael effeithiau parhaus ar yr ecosystemau eiddil hyn sy'n nodweddu tirweddau ucheldiroedd Cymru.

Cafodd yr holl waith ei wneud dan arweiniad archeolegydd o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cadw, gan sicrhau bod pentyrrau cerrig hanesyddol neu archeolegol yn cael eu cadw ac mai dim ond strwythurau modern, diangen, oedd yn cael eu dymchwel.

Ar y cyfan, roedd y diwrnod yn gam cadarnhaol ac ymarferol tuag at ddiogelu'r amgylchedd mynydd unigryw, gan ddangos gwerth gwaith partner a gweithredu cyd-gysylltiedig wrth ddiogelu ein tirweddau naturiol a hanesyddol.

Gallwch weld y gwaith dymchwel pentyrrau cerrig yma:

https://www.facebook.com/share/r/17U3g5tffA/?mibextid=wwXIfr



*Cyn y gwaith*



*Ar ôl y gwaith*



*Cyn y gwaith*



*Ar ôl y gwaith*

# MEDDYLIAU I GLOI

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn hwn - eich cyfraniad chi sy'n rhoi bywyd i'r cylchlythyr ac mae'n helpu i ddangos ehangder y gwaith sy'n digwydd ledled Cymru i ymdrin â throseddau treftadaeth.

Mae Ymgyrch Treftadaeth Cymru yn parhau i dyfu fel partneriaeth ac mae'r cylchlythyr hwn yn ffordd bwysig o rannu newyddion, tynnu sylw at arfer gorau, a chydnabod yr ymdrech gydweithredol sy'n cael ei wneud ar draws sefydliadau i amddiffyn ein hamgylchedd hanesyddol.

Os oes gennych chi rywbeth yr hoffech chi ei rannu ar gyfer y rhifyn nesaf (**Gaeaf 2026**), mae croeso i chi gysylltu â Chwnstabl Heddlu Daniel Counsell (Heddlu Gwent) (Daniel.Counsell@gwent.police.uk

Croesawir cyfraniadau o bob maint ac maent yn helpu i greu darlun mwy clir o'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru.